



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cynllun Gweithredu – Adolygiad Canol
Blwyddyn

2016-17



Tudalen Gynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	4
Adran 1: Blaenoriaethau Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid	5
Cyflwyniad gan Peredur Hughes, Cadeirydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid	5
Ymwrthedd i Gyffuriau	7
Bioddiogelwch	8
Dolur Rhydd Feirysol Buchol	10
Ymgysylltu â'r Sector Dofednod	11
Ymgysylltu â'r Sector Lles (Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes)	12
Mwy o Gydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth	13
Y Clafr	14
Cloffni mewn Defaid	15
Pynciau a gwmpesir gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid	16
Adran 2: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru	17
Cyflwyniad gan yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru	17
Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid	19
Gwenyn	20
TB Buchol	21
Cynlluniau Wrth Gefn	24
Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid	25
Prosiect Unedau Cwarantin	26
Perchnogaeth Gyfrifol	27
Salmonela	28
Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy – Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol	29

Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy – Clefyd y Crafu	30
Adolygiad Labordy a Gwyliadwriaeth	31
Lles Anifeiliaid ar Adeg eu Lladd	32
Adran 3: Polisiâu sy'n Dod i'r Amlwg	33
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion – Gwasanaethau'r Dyfodol	33
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion – Adolygiad o Daliadau am Wasanaethau a Ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	33
Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE	33
Adran 4: Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i Chi	34



Rhagair y Gweinidog

Mae "Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru – Cyrraedd Safonau Uchel Gyda'n Gilydd" yn pennu y dull yr ydym yn ei ddefnyddio i sicrhau gwelliannau parhaus a hirdymor i safonau iechyd a lles anifeiliaid, tra hefyd yn helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad i'r economi a'r amgylchedd. Mae'r Fframwaith hefyd yn cefnogi'r saith nod llesiant sydd wedi'u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 am Gymru lewyrchus, gydnherth, iach, mwy cyfartal sydd â diwylliant sy'n ffynnu a chymunedau cydlynol, a Chymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang.

Fis Gorffennaf diwethaf, cyhoeddais Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid 2016/17 sy'n elguo ein blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Adolygiad Canol Blwyddyn yn rhoi diweddariad inni o'r datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod cyfnod prysur iawn gyda nifer o heriau newydd i'w hystyried.

Mae'r adolygiad hwn yn eang, gan gwmpasu gwaith Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Mae'r camau'n cynnwys y gwaith i adnewyddu a chryfhau rhaglen Dileu TB Buchol, gan edrych ar godau ymarfer lles anifeiliaid yn ogystal â'n hymrwymadau statudol i ddiogelu iechyd pobl a'r gadwyn fwyd dynol. Mae hefyd yn rhoi'r diweddarafr inni am ein trefniadau cynllunio wrth gefn os bydd achos o glefyd egsotig, cynlluniau sydd wedi'u gweithredu yn ystod y cyfnod hwn i ddelio gyda her fflw'r adar H5N8.

Rwy'n ddiolchgar i Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru am eu hymrwymiad a'u cymorth parhaus. Maent wedi parhau gyda'u gwaith ar bioddigolwch ac Ymwrthedd i Gyffuriau yn ogystal â chefnogi datblygiad Cynllun Dileu Dolur Rhydd Feirol y Gwartheg yng Nghymru. Mae'r Grŵp hefyd wedi bod yn rhan mawr o'r gwaith i ystyried iechyd a lles anifeiliaid yng nghyd-destun Gadael yr UE. Rwy'n ddiolchgar am yr ystod eang o bartneriaid sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, gan gynnwys cynrychiolwyr diwydiant, ceidwaid da byw a pherchnogion anifeiliaid eraill.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar draws yr ystod eang iawn yma o weithgarwch. Er bod llawer o waith o'n blaenau, mae'r Adolygiad Canol Blwyddyn yn dangos yn glir y gallwn, drwy ddefnyddo'r egwyddorion o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gydweithio i sicrhau bod gan Gymru y safonau uchaf un o ran iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig i gefnogi ein gwaith wrth inni gynllunio ar gyfer 2017/18 a'r tymor hir.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig



Adran 1: Blaenoriaethau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cyflwyniad gan Peredur Hughes, Cadeirydd Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Mae llawer wedi digwydd ers cyhoeddi y Cynllun Gweithredu hwn yn ôl ym mis Gorffennaf. Mae Fframwaith Iechyd a Lles Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu ein blaenoriaethau, ond ar yr un amser yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau canlyniadau Refferendwm yr UE. Mae llawer wedi digwydd ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu hwn ym mis Gorffennaf. Mae Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu ein blaenoriaethau ond ar yr un pryd yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau canlyniadau yr UE. Dechreuodd ein gwaith y llynedd gyda gweithdai ar draws y sector o fewn y diwydiant a chyfres o gyfarfodydd Bwrdd Crwn a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Ym mis Ionawr, cynhaliwyd y ddau weithdy gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ystyried cynllunio iechyd a lles anifeiliaid yn y tymor byr, canolig a hir yng nghyd-destun gadael yr UE. Roeddwn yn falch iawn o weld cynifer o bobl yn bresennol a chawsom rai trafodaethau adeiladol iawn. Fe wyddom fod yn rhaid inni, o leiaf, gynnal y safonau presennol o ran iechyd a lles anifeiliaid. Rwy'n teimlo bod yr ymrwymiad yno i wella'r safonau hyn yn barhaol i helpu i gefnogi trafodaethau a thrafodaethau masnach yn y dyfodol.

Rydym oll yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio drwy'r cyfnod hwn o newid mawr. Fel Grŵp, rydym yn gobeithio cynnal mwy o weithdai yn y dyfodol a byddem yn annog pobl i gofrestru eu diddordeb gyda Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid. I sicrhau bod cydweithio, rydym yn

parhau i weithio'n agos â Grŵp y Diwydiant Bwyd a Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru. Rwyf hefyd bellach yn aelod o'r Is-Grŵp Strategaeth Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru. Mae Aelodau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi parhau i fod yn bresennol yng Ngrwpiau Iechyd a Lles Gwartheg a Defaid Prydain. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig o ystyried y gwaith yr ydym yn ei wneud ar Ddolor Rhyd Feirol y Gwartheg ac Ymwrthedd i Gyffuriau.

Yn ogystal â'r gwaith o adael yr UE, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein blaenoriaethau eraill. Ym mis Medi, cafodd y cais i Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, ar gyfer Cam 1 Cynllun Dileu Dolur Rhydd Feirol y Gwartheg ei gymeradwyo. Cafodd y cais ar gyfer Cam 2 y cynllun ei gyflwyno ym mis Chwefror. Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud ar y cynigion hyn ac rwyf yn edrych ymlaen at weld lansiad y Cynllun Dileu Dolur Rhydd Feirol yn 2017. Yn ystod yr Hydref, derbyniwyd canlyniadau drafft arolwg y clafr. Diolch i bawb a atebodd. Mae'r canlyniadau wedi caniatâu inni edrych o'r newydd ar y sefyllfa yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyflwyno ein hargymhellion i ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac i gyhoeddi y canlyniadau yn fuan. Ar gloffni defaid, rydym wedi derbyn cefnogaeth Cyswllt Ffermio i weithredu "Bywyd Heb Gloffni – cynllun 5 pwynt", a ddatblygwyd gan filfeddygon a phrofiadau ymarferol ar ffermydd. Mae'r dull hwn o weithio eisoes yn dangos canlyniadau positif.

Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o Bioddiogelwch yn parhau. Ar hyn, mae'r Grŵp yn cael ei gynrychioli ar yr Is-Grŵp Casglu Data Defnyddio Gwrthficrobau ar gyfer Gwartheg CHAWG. Mae hwn yn bwnc cymhleth ond yn sylfaenol i unrhyw ddull o symud ymlaen.

Ym mis Rhagfyr, ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ein cyfarfod i drafod bod yn berchennog anifeiliaid cyfrifol, a'n gwaith newydd i drafod gyda'r sector dofednod. Cawsom ein calonogi gan y gwaith a wnaethpwyd i adolygu'r Codau ymarfer ar gyfer Lles Anifeiliaid ac rydym yn awyddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun i hyrwyddo perchnogion anifeiliaid cyfrifol ledled Cymru.

Bu hwn yn gyfnod hynod anodd i'r sector dofednod yng ngoleuni'r achos o ffliw adar. Yn dilyn ein trafodaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet, byddwn yn edrych ar y ffordd orau o weithio gyda Llywodraeth Cymru i annog mwy o bobl i gofrestru ar gofrestr dofednod Prydain Fawr i helpu i sicrhau bod y diwydiant yn y sefyllfa orau posib i reoli unrhyw achosion o'r clefyd yng Nghymru.

Yn yr ychydig wythnosau nesaf bydd aelodaeth y Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid y newid. Bydd Huw Davies yn gadael a hoffwn ddiolch i Huw am ei waith caled a'i ymrwymiad ers sefydlu'r grŵp yn 2014. Rwy'n edrych ymlaen at groesawu 2 o aelodau newydd fydd yn cael eu penodi'n gyhoeddus gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn y Gwanwyn.

Dymuniadau gorau

Peredur Hughes

Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Ymwrthedd i Gyffuriau

Camau gweithredu allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Codi ymwybyddiaeth o Ymwrthedd i Gyffuriau ac addysgu pobl amdano.</p>	<p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi parhau i gefnogi Strategaeth Ymwrthedd i Gyffuriau Pum Mlynedd y DU trwy addysg a chodi ymwybyddiaeth.</p> <p>Mae'r Grŵp wedi meithrin cysylltiadau agosach gyda Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg Prydain Fawr ac wedi cyfrannu at waith Is-grŵp Casglu Data Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg Prydain Fawr ar y Defnydd o Gyffuriau Gwrthficrobaidd mewn Gwartheg. Mae Is-grŵp Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg Prydain Fawr yn ymchwilio i ffyrdd y gellir mesur y defnydd o wrthfotigau mewn gwartheg, a bydd y data a gesglir yn cynnig tystiolaeth ar gyfer lleihau eu defnydd yn y dyfodol. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddysgu mwy am y ffyrdd y mae canllawiau ar ddedol a defnyddio gwrthfotigau yn cael eu gwneud ar gael i glinigwyr • Trafodaethau gyda'r Partneriaid Cyflenwi Milfeddygol yng Nghymru, Menter a Busnes ac Iechyd Da i fanteisio ar y potensial i wella safonau stiwardiaeth gwrthfotig, trwy lunio canllawiau ar ragnodi a dosbarthu ar gyfer milfeddygon • Comisiynu Cyswllt Ffermio i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd priodol o gyffuriau gwrthficrobaidd ymhlith anifeiliaid fferm. <p>Bydd y Grŵp yn parhau i hyrwyddo'r neges y bydd systemau cynhyrchu iechyd da a meddyginiaeth filfeddygol ataliol o safon yn arwain at leihau'r defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd (mae atal yn well na gwella).</p>
<p>Cynyddu'r gwaith o hyrwyddo arferion hwsmonaeth a bioddiogelwch da i reoli milheintiau, clefydau anifeiliaid endemig ac egsotig – mae atal yn well na gwella. Dull sylfaenol ar gyfer hyn fydd y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.</p>	<p>Mae hyrwyddo arferion hwsmonaeth a bioddiogelwch da yn flaenoriaeth gytunedig ar gyfer y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn datblygu elfen iechyd a lles anifeiliaid y gwasanaeth i sicrhau y caiff ei hymgorffori fel thema drawsbynciol.</p> <p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cydnabod bod lleihau'r angen am orfod defnyddio meddyginiaethau yn y lle cyntaf yn agwedd allweddol ar y gwaith ar Ymwrthedd i Gyffuriau – mae atal yn well na gwella. Bydd y gwaith ar fioldiogelwch (darperir diweddariad arno yn ddiweddarach yn y tabl) yn cyfrannu at yr amcan hwn. Mae Ymwrthedd i Gyffuriau hefyd yn flaenoriaeth gytunedig o ran iechyd a lles anifeiliaid o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.</p>
<p>Hyrwyddo defnydd cyfrifol o wrthfotigau.</p>	
<p>Cefnogi gwaith ar lefel y DU i ddatblygu gwell ffyrdd o gasglu data a thystiolaeth yn ymwneud ag Ymwrthedd i Gyffuriau i sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ar waith i lywio gweithredoedd yn y dyfodol.</p>	<p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cefnogi Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg Prydain Fawr i ymdrin â'r her o gasglu data ar Ymwrthedd i Gyffuriau. Ymwelodd Grŵp Llywio Casglu Data Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg Prydain Fawr ar y Defnydd o Gyffuriau Gwrthficrobaidd mewn Gwartheg ag Aberystwyth ym mis Hydref 2016 i weld arddangosiad meddalwedd a grëwyd gan Gynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru sy'n galluogi pobl i gofnodi meddyginiaethau a chofnodi symudiad gwartheg (yn gysylltiedig â BCMS) yn awtomatig. Cytunwyd hefyd yng nghyfarfod y Grŵp Iechyd a Lles Defaid ym mis Hydref y dylid gweithredu dull tebyg yn y sector defaid. Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cefnogi gwaith Grŵp Iechyd a Lles Defaid ar y mater hwn.</p>

Bioddiogelwch

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Ystyried yr argymhellion yn Adroddiad ar Ganlyniadau yr Arolwg Bioddiogelwch, cynghori ar y ffordd ymlaen a goruchwylio gweithrediad yr argymhellion hyn.</p>	<p>Cyhoeddwyd canlyniadau Arolwg Bioddiogelwch Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ym mis Chwefror 2016. www.gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/biosecurity/wahwf-biosecurity-survey/?skip=1&lang=cy</p> <p>Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu argymhellion yr arolwg. Yn ystod y cyfnod nesaf, rhoddir ychwaneg o ystyriaeth i rai o'r argymhellion mwy cymhleth yn enwedig ynghylch dulliau o wella'r broses o gasglu tystiolaeth a mesurau ar gyfer llwyddiant. Un enghraifft o hyn yw datblygiad ap ar gyfer ffôn symudol yn ymwneud â bioddiogelwch i ffermwyr ei ddefnyddio. Mae Prif Swyddog Milfeddygol Cymru hefyd yn bwriadu canolbwyntio ar fiolddiogelwch ceffylau yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p>Bydd cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch cyngor ar fiolddiogelwch a gwybodaeth amdano yn parhau. Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd yn ystyried amseriad arolwg bioddiogelwch dilynol.</p>
<p>Parhau i hyrwyddo'r Llawlyfr i ddiogelu iechyd eich gwartheg.</p>	<p>Mae'r Llawlyfr i Ddiogelu Iechyd eich Gwartheg dal i fod ar gael ar-lein yn: www.gov.wales/docs/drah/publications/150515-cattle-keepers-guide-cy.pdf</p>
<p>Cynhyrchu llawlyfr ar gyfer diogelu iechyd defaid er mwyn hyrwyddo negeseuon allweddol ac arfer da.</p>	<p>Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu dros y 6 mis nesaf.</p>
<p>Ystyried bioddiogelwch ceffylau yn rhan o'r ymgyrch gyffredinol ar fiolddiogelwch, gan weithio gyda phartneriaid i sefydlu a hyrwyddo negeseuon allweddol.</p>	<p>Aeth Prif Swyddog Milfeddygol Cymru i'r Gynhadledd World Horse Welfare ym mis Tachwedd 2016 gan gyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol World Horse Welfare ym mis Ionawr i drafod bioddiogelwch ceffylau. Mae nifer o gamau gweithredu o dan ystyriaeth bellach, gan gynnwys gwella bioddiogelwch ceffylau mewn sioeau amaethyddol a datblygu rhestr wirio ar gyfer iechyd ceffylau.</p>
<p>Datblygu cynllunio iechyd ar ffermydd, yn enwedig drwy'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.</p>	<p>Mae cynllunio iechyd ar ffermydd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.</p>
<p>Sicrhau bod bioddiogelwch da yn elfen graidd o'r strategaethau cyffredinol megis y Fframwaith Strategol arfaethedig ar gyfer Amaethyddiaeth a'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.</p>	<p>Mae Cadeirydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid bellach yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Strategol Cyswllt Ffermio. Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi bod yn cydweithio'n agos â swyddogion yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol a Chyswllt Ffermio i sicrhau bod bioddiogelwch wrth wraidd polisi iechyd a lles anifeiliaid. Cynhaliodd y Grŵp gyfarfod ad hoc ar 31 Ionawr i drafod cynigion yn ymwneud â chynllunio ar gyfer iechyd anifeiliaid gyda'r bwriad o sefydlu is-grŵp i ganolbwyntio ar y gwaith hwn yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hon yn flaenoriaeth allweddol i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.</p>

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Sicrhau bod bioddiogelwch yn ganolog i unrhyw gynigion a ddatblygir gan y Grŵp yn ystod 2016/17.</p>	<p>Yn ystod y cyfnod hwn, bu Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn goruchwyllo datblygiad cais llawn ar gyfer cyllid gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ar gyfer Cam 2 y Cynllun Dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol yng Nghymru. Mae gwella Bioddiogelwch ar ffermydd yn nod allweddol ar gyfer y cynllun dileu arfaethedig.</p>

Dolur Rhydd Feirysol Buchol

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Parhau i oruchwylio datblygiad y Cynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol arfaethedig.	<p>Cafodd cais i Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a Chynllun Datblygu Cadwyn Gyflenwi a Chydweithredu ar gyfer Cam 1 y Cynllun Difa ei gymeradwyo ym mis Medi 2016. Mae hyn wedi galluogi'r Is-grŵp Dolur Rhydd Feirysol Buchol i fwrw ymlaen â datblygiad cynllun gan gynnwys cyfathrebu, profi cynigion mewn modd ymarferol a gweithio ar strwythur y cynllun.</p> <p>Cafodd cais ar gyfer Cam 2 y Cynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol ei gyflwyno ym mis Chwefror 2016. Mae'r cais hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cyllid sy'n ofynnol i ddatblygu'r Cynllun gan gwmpasu sgrinio stoc ifanc, chwilio am fuchesi a heintir yn barhaus, sefydlu cronfa ddata, cyfathrebu a chyflenwi rhaglen graidd. Yn amodol ar gymeradwyaeth, Haf 2017 fydd yr amserlen arfaethedig ar gyfer lansio Cynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol Cymru, neu'n gynt os yw'n bosibl.</p>
Codi ymwybyddiaeth er mwyn annog pobl i fanteisio ar y cynllun cyn ac ar ôl ei lansio.	Bydd yr hyn yn barhaus yn y cyfnod cyn lansio Cynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol Cymru.
Sicrhau bod safonau bioddiogelwch uchel yn sail i ddatblygiad a gweithrediad y cynllun.	Caiff bioddiogelwch ei gynnwys fel elfen graidd o Gynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol Cymru.
Gweithio ar draws ffiniau e.e. drwy'r Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg ledled Prydain Fawr gyfan, i gadw llygad ar y sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.	Caiff Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ei gynrychioli yng nghyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg lle y mae Dolur Rhydd Feirysol Buchol yn eitem reolaidd ar yr agenda. Mae'r Is-grŵp Dolur Rhydd Feirysol Buchol hefyd wedi bod mewn cysylltiad agos â chydweithwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Difa Dolur Rhydd Feirysol Buchol.

Ymgysylltu â'r Sector Dofednod yng Nghymru

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd i annog pobl sy'n cadw dofednod i gofrestru ar Gofrestr Dofednod Prydain Fawr.</p>	<p>Bu Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn trafod cynigion ar gyfer yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr. Dros y misoedd nesaf, bydd y Grŵp yn gweithio gyda swyddogion yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i;</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyried ysgrifennu at y cwmnïau cyflenwi a'u targedu, i: <ul style="list-style-type: none"> – Hysbysu/atgoffa eu cwsmeriaid bod gofyniad cyfreithiol i gadw cofnodion o ddofednod y maent yn eu gwerthu ac i bwy h.y. enw, cyfeiriad, dyddiad a nifer – cyfathrebu'r neges y caiff pawb sy'n cadw dofednod, gan gynnwys y rhai hynny a chanddynt lai na 50 o adar, eu hannog i ddarparu manylion am eu diadelloedd i'r Gofrestr Dofednod. • ystyried ymweld â busnesau cyflenwyr dofednod (ieir, hwyaid ac ati) yng Nghymru nad ydynt wedi eu cynnwys yn nhrefn archwilio arferol Arolygwyr Marchnata Wyau yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion • hysbysebu mewn cylchgronau dofednod arbenigol ac ar wefannau cymdeithasau dofednod • digwyddiadau tyddyn • erthyglau Gwlad. <p>Bu achosion o'r fflui adar H5N8 ym Mhrydain Fawr yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cyfathrebu, gan gynnwys y datganiad llafar a wnaethpwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 10 Ionawr, wedi cynnwys cyfeiriad at y gofrestr dofednod, yn atgoffa pobl sy'n cadw dofednod i sicrhau eu bod wedi cofrestru, gan gynnwys y perchnogion hynny a chanddynt lai na 50 o adar.</p>
<p>Ystyried a datblygu rhaglen er mwyn addysgu pobl sy'n cadw dofednod drwy lenyddiaeth a chyfarfodydd addysgol lleol.</p>	<p>Bydd gwaith ar y cam gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf. Y gobaith yw y gall gwaith ar y Codau Ymarfer Lles anifeiliaid, yn enwedig y cod diwygiedig ar gyfer ieir dodwy a'r cod newydd arfaethedig ar gyfer brwyliad, helpu i lywio'r gwaith hwn.</p>
<p>Annog pobl sy'n cadw dofednod i gofrestru â phractis milfeddygol.</p>	<p>Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymgyrch gyffredinol fel y caiff ei datblygu.</p>
<p>Cydweithio ag Awdurdodau Lleol i annog tyddynnod i gofrestru.</p>	<p>Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymgyrch gyffredinol fel y caiff ei datblygu.</p>
<p>Ystyried cyfleoedd i gysylltu â'r camau gweithredu ar gyfer bioddiogelwch ac ymwrthedd i gyffuriau.</p>	<p>Caiff materion yn ymwneud â dofednod eu cynnwys yn y gwaith a amlinellwyd yn gynharach ar fiolddiogelwch ac Ymwrthedd i Gyffuriau.</p>

Ymgysylltu â'r Sector Lles – Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i adolygu a diweddarau Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid.	Mae rhaglen waith bellach yn mynd rhagddi i ddiwygio Codau Ymarfer yn ymwneud â lles. Bwriedir codau ar gyfer y cyhoedd a phobl sy'n cadw anifeiliaid (anifeiliaid anwes neu anifeiliaid fferm). O dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid, mae codau wedi'u cyhoeddi ar gyfer ceffylau, cŵn, cathod, cwningod, gwartheg, defaid ac adar hela.
Ystyried Bioddiogelwch Ceffylau yn rhan o'r ymgyrch gyffredinol ar Fioddiogelwch, gan weithio â phartneriaid i sefydlu a hyrwyddo negeseuon allweddol.	Gweler y diweddariad o dan Bioddiogelwch.
Cydweithio â Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i sefydlu Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer yr Heddlu (a gwasanaethau brys eraill) ar gyfer achosion brys yn ymwneud â cheffylau.	Nid oes unrhyw gynnydd i'w adrodd ar y weithred hon ar yr adeg adolygu hon.
Cefnogi a hwyluso trafodaethau gyda phartneriaid mewn Llywodraeth Leol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.	Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn parhau i gefnogi trafodaethau yn ôl yr angen.
Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru ar ddewisiadau ar gyfer gwella gwarchodfeydd.	Rhoddwyd y dasg i Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru ddrafftio Cod Ymarfer Lles anifeiliaid ar gyfer gwarchodfeydd anifeiliaid. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'n rhan o'r gwaith ehangach i ystyried yr holl godau lles anifeiliaid sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Mwy o Gydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Annog partneriaid i gofrestru eu diddordeb ac ymuno â rhwydweithiau partneriaeth.	Mae'r gwaith yn parhau. Mae dros 450 o gysylltiadau wedi cofrestru bellach.
Annog rhanddeiliaid/sefydliadau partner i gydweithio er mwyn cyflawni nodau cyffredin. Enghraifft bresennol o hyn yw'r is-grŵp Dolur Rhydd Feirysol Buchol.	Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi bod yn awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid/sefydliadau partner, yn enwedig yng nghyd-destun Canlyniad Refferendwm yr UE. Ym mis Ionawr, cynhaliodd y Grŵp ddau weithdy "Cynllunio ar gyfer y Dyfodol" i ystyried cynllunio ar gyfer y flwyddyn 2017/18 a'r tymor hwy. Roedd cyfanswm o fwy na 70 o gynrychiolwyr yn bresennol. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn y gweithdai ei hystyried ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid eisoes wedi penderfynu cynnal digwyddiadau tebyg yn y flwyddyn 2017/18.
Pennu cwmpas y posibilrwydd ar gyfer canolfan wybodaeth ar y we sy'n cynnwys materion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.	Profwyd y syniad hwn yng ngweithdai Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Bydd gwaith i ddatblygu'r syniad hwn yn mynd rhagddo yn ystod y misoedd nesaf.
Cynnig cymorth hwyluso ar ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau.	Mae aelodau Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi parhau i roi eu cefnogaeth, yn enwedig i'r Is-grŵp Dolur Rhydd Feirysol Buchol ac i'r gwaith ar y clafr. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd wedi cytuno i hwyluso sefydliad Is-grŵp i ystyried cynllunio iechyd anifeiliaid.
Cydweithio'n agos â Bwrdd y Diwydiant Bwyd a'r Bwrdd Partneriaeth Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth i ystyried yr heriau tymor hwy ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.	<p>Erbyn hyn mae cysylltiadau sefydledig ar waith gyda Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru a Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod. Mae Cadeirydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd yn aelod o is-grŵp strategaeth Grŵp Partneriaeth Amaeth Cymru.</p> <p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd wedi bod yn cyfrannu at y gweithdai a'r trafodaethau o amgylch y bwrdd ar Ymadawiad y DU o'r UE, gan fynd ati i geisio barn y partneriaid iechyd a lles anifeiliaid drwy eu gweithdai eu hunain, er mwyn cyfrannu at y paratodau ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol.</p>

Y Clafr

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Ystyried canlyniadau'r arolwg sy'n archwilio nifer yr achosion o'r clafr yng Nghymru, yn benodol er mwyn nodi unrhyw ardaloedd daearyddol sydd angen cymorth ychwanegol.	Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi ystyried canlyniadau'r arolwg clafr ac wrthi'n paratoi cyngor ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae'r Grŵp hefyd wedi gofyn i waith ychwanegol gael ei wneud ar ddadansoddi gofodol er mwyn helpu i hysbysu ei argymhellion. Bydd canlyniadau'r arolwg clafr ynghyd ag argymhellion y Grŵp yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth.
Cydweithio â Chylch Gorchwyl a Gorffen y Clafr i ail-werthuso'r argymhellion yn yr adroddiad The Challenge of Eradicating Sheep Scab.	<p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cwrdd â NFU Cymru, FUW a'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol sy'n aelodau o Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr i drafod canlyniadau'r arolwg clafr ac ail-werthuso'r argymhellion yn yr adroddiad The Challenge of Eradicating Sheep Scab.</p> <p>Cytunwyd mai un o'r pethau a oedd yn peri'r mwyaf o bryder oedd camddefnydd ymddangosiadol cynhyrchion ar gyfer trin y clafr, ac, er mwyn mynd i'r afael â hyn, nodwyd bod angen mwy o bwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i ddatblygu cynnig i wneud cais am gyllid gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020.</p>
Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen ar reoli parasitiaid yn rhan o'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio.	Mae rheoli parasitiaid yn un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhaglen ar reoli parasitiaid. Ar ôl cytuno, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir ymgorffori'r argymhellion o'r arolwg clafr i'r gwaith hwn. Yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr, bu'r Grŵp hefyd yn ystyried cyflwyniad gan y Grŵp Rheoli Parasitiaid yn Gynaliadwy mewn Defaid ar ymwrthedd wrthlyngyrol. Mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys hyn mewn unrhyw raglen ar reoli parasitiaid yn y dyfodol.
Sicrhau bod safonau uchel o fioggiogelwch yn sail i unrhyw gamau gweithredu a gymerir yn sgil adroddiad The Challenge of Eradicating Sheep Scab.	Bydd hyn yn ddibynnol ar y camau gweithredu a gynghorir gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.
Parhau i weithio ar draws ffiniau e.e. drwy Grŵp Iechyd a Lles Defaid Prydain Fawr er mwyn cadw llygad ar y sefyllfa yn Lloegr a'r Alban.	Caiff Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ei gynrychioli yng nghyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Lles Defaid lle mae'r clafr yn eitem reolaidd ar yr agenda.

Cloffni Defaid

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Sefydlu gweithgor cenedlaethol yng Nghymru ar gloffni defaid a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o gymunedau diwydiannol, milfeddygol, amaethyddol ac academaidd Cymru.</p> <p>Cydweithio â'r gweithgor sefydledig i:</p> <p>Ystyried a chytuno ar gamau gweithredu i gyflawni lefelau isel parhaus o gloffni. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r "Cynllun 5 pwynt", er enghraifft.</p> <p>Nodi ffynonellau o gyllid priodol a sicrhau'r cyllid hwn.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio i godi ymwybyddiaeth, rhannu cyngor ac arfer gorau â ffermwyr.</p> <p>Ystyried sut orau i gynnwys milfeddygon yn y gwaith sy'n cael ei wneud.</p>	<p>Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi sicrhau cymorth gan Gyswllt Ffermio i weithredu "Bywyd Heb Gloffni – cynllun 5 pwynt" sydd wedi'i ddatblygu gan filfeddygon a chan ystyried profiadau ymarferol ar ffermydd. Mae'n mynd i'r afael â chloffni mewn amrywiaeth o ffyrdd: triniaeth brydlon, ynysu anifeiliaid sy'n dioddef, difa, bioddiogelwch da a brechu. Cychwynnodd y gwaith o weithredu'r Cynllun ym mis Awst 2016.</p> <p>Mae Cyswllt Ffermio wrthi'n cyflwyno'r rhaglen waith hon nawr. Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn parhau i fonitro cynnydd, a bydd yn asesu pa un a oes angen sefydlu gweithgor ar wahân ar y pwnc hwn yn y cyd-destun hwn.</p>

Pynciau a gwmpesir gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cynnal 3 chyfarfod yn y cyfnod hwn sydd dan adolygiad. Ystyriwyd y pynciau canlynol:

- Iechyd Anifeiliaid – Dewisiadau ar gyfer Darparu Gwasanaethau yng Nghymru
- Cynllunio Iechyd Anifeiliaid
- Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth Iechyd Anifeiliaid
- Ymwrthedd Gwrthlyngyrol
- Ymwrthedd i Gyffuriau
- Bioddiogelwch
- Dolur Rhydd Feirysol Buchol
- Grwpiau Iechyd a Lles Defaid a Gwartheg
- Newid Hinsawdd
- Cynlluniau Wrth Gefn
- Coleri sy'n rhoi Sioc Drydanol – Adolygiad
- Ceffylau a gweithredu safonau FEI
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE
- Gadael yr UE a'r Goblygiadau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid
- Mewnfudo Cŵn Bach yn Anghyfreithlon
- Adroddiadau Monitro Clefydau Rhyngwladol
- Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid
- Ymgynghoriad polisi Cyfoeth Naturiol
- Y sector moch a'r sector dofednod – materion lles allweddol
- Unedau cwarantîn
- Manwerthwyr yn derbyn Ilaeth/cynhyrchion sydd wedi dod o anifeiliaid wedi'u brechu
- Sioe Frenhinol Cymru
- Y Clafr a Chloffni Defaid
- Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru
- Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth
- Dangosfwrdd TB a Chymorth TB
- Blaenoriaethau'r Sector Lles
- Archwiliad Sefydliad y Byd dros Iechyd Anifeiliaid



Adran 2: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Cyflwyniad gan yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Mae wedi bod yn gyfnod prysur a heriol iawn ers i Gynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid 2016/17 gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf. Yn ogystal â gweithio i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun, mae fy nhîm a minnau yn rhan o'r gwaith o ystyried goblygiadau canlyniad Refferendwm yr UE a chefnogi Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i baratoi ar gyfer y trafodaethau i ddod. Fel Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, rwy'n trafod gadael yr UE, a'r hyn y bydd yn ei olygu i iechyd a lles anifeiliaid, yn rheolaidd gyda fy swyddogion cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rhaid i ni barhau i fwrw ymlaen i gynnal safonau iechyd a lles uchel i anifeiliaid. Rydym yn dadansoddi testun Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE (www.eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=OJ:L:2016:084:FULL&from=EN) i sicrhau ein bod yn cynnal prif egwyddorion y rheoliad pwysig a defnyddiol hwn. Diben hyn yw sicrhau da byw iach yng Nghymru, diogelu iechyd pobl, yr amgylchedd a'r economi leol, a hefyd cynnal ein safle masnachu rhyngwladol.

Bioddiogelwch sydd wrth wraidd y gwaith hwn ac mae pob fferm yn gweithredu protocolau llym a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â milfeddygon preifat. Mae fy nhîm wedi bod yn gweithio i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Arolwg Bioddiogelwch, yn benodol drwy Cyswllt Ffermio a'r cyngor/canllawiau rydym yn eu cyhoeddi. Rwyf hefyd wedi bod yn edrych yn fanylach ar ddiogelwch ceffylau ar ôl bod i Gynhadledd World Horse Welfare ym mis Tachwedd a siarad â Phrif

Weithredwr World Horse Welfare ym mis Ionawr. Byddaf yn ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i annog gwelliannau yn y maes hwn.

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ynghylch nifer o faterion ac mae cynnydd yn cael ei wneud. O ran Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD), mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddiogelu cyllid ar gyfer Cynllun i Ddileu BVD yng Nghymru. Rwy'n gobeithio gweld y cynllun ar waith o fewn y misoedd nesaf. Mae hyn yn enghraifft wych o ddiwydiant yn gweithio gyda'i gilydd ac mae'n fodel i adeiladu arno ar gyfer clefydau anifeiliaid anstatudol eraill. Gall codi ymwybyddiaeth o Ymwrthedd i Gyffuriau a defnydd cyfrifol o feddyginiaethau helpu i gyflawni'r nod o greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'n glir bod cynllunio iechyd yn allweddol er mwyn lleihau'r defnydd o'r cynnyrch gwerthfawr hwn. Yn y misoedd diwethaf mae fy nhîm wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr Iechyd y Cyhoedd i nodi meysydd lle gallwn gyfuno a chefnogi ein gilydd.

Mae canfod clefyd yn gynnar ac yn gywir yn hanfodol ar gyfer iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac mae angen systemau gwyliadwriaeth effeithiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r systemau gwyliadwriaeth wedi newid yn fawr ac mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i gael amddiffyniadau ychwanegol er mwyn sicrhau gwyliadwriaeth dda dros Gymru. Yn y cyfnod hwn rydym wedi bod yn gweithio'n agos â phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig wrth ddelio â'r achos o fflw adar. Mae'r achosion hyn yn dangos pwysigrwydd ein

gwaith cynllunio wrth gefn. Mae gan berchnogion anifeiliaid unigol gyfrifoldeb hefyd, ac yn yr achos hwn hoffwn barhau i annog pawb sy'n cadw dofednod, gan gynnwys y rheini sydd â llai na 50 o adar, i roi eu manylion i'r Gofrestr Dofednod (www.gov.uk/guidance/Poultry-registration). Bydd hyn yn sicrhau y gellir cysylltu â nhw yn syth os ceir achos o glefyd adar, er mwyn ceisio diogelu'r haid genedlaethol.

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ddatganiad ar 18 Hydref i lansio ymgynghoriad ar Raglen ddiwygiedig i Ddileu TB mewn Gwartheg a oedd yn cynnwys nifer o fentrau newydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Ionawr 2017 a derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion. Mae fy nhîm yn casglu ac yn dadansoddi'r ymatebion ar hyn o bryd er mwyn eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet. Rhagwelir y bydd y rhaglen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2017.

Mae ennyn diddordeb a gweithio mewn partneriaeth yn egwyddor allweddol sy'n sail i'n gwaith. Rwy'n awyddus iawn i gysylltu â mwy o bobl ifanc a chael eu barn hwy am ein polisiau a'n rhaglenni wrth i ni symud ymlaen. Mae ein gwaith i adolygu Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid Anwes yn faes pwysig iawn. Rydym am sicrhau fod pobl yn gwybod sut i fod yn berchennog anifail cyfrifol, a does dim lle gwell i ddechrau na gyda phobl ifanc.

Rwy'n gobeithio eich bod wedi'ch annog gan y cynnydd rydym yn ei wneud ac y byddwch yn parhau i weithio gyda ni am weddill y flwyddyn hon wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer 2017/18.

Christianne Glossop

Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Gweithio gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gwblhau'r adolygiad cychwynnol o'r Codau Ymarfer Lles Ategol ar gyfer Anifeiliaid Anwes.	Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cymeradwyo'r dull partneriaeth i'w ddilyn gan Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i adolygu Codau Ymarfer o ran ceffylau, cŵn a chathod. Sefydlwyd y grwpiau penodol i rywogaethau, a gofynnwyd iddynt ddarparu diwygiadau a argymhellir i Lywodraeth Cymru yn ystod y broses ddrafftio. Darparodd y grwpiau eu hargymhellion i Lywodraeth Cymru ym mis Medi. Mae ystyriaeth fewnol o'r diwygiadau hyn yn parhau cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2017.
Sefydlu gweithgorau anffurfiol bach i roi cyngor technegol er mwyn cwblhau'r adolygiad cychwynnol o'r Codau Ymarfer Lles ar gyfer Moch ac Ieir Dodwy.	Mae Gweithgorau ar gyfer adolygu Codau Ymarfer Lles Moch ac Ieir Dodwy wedi'u sefydlu a darparwyd eu hargymhellion i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr. Mae ystyriaeth fewnol o'r argymhellion hyn ar y gweill erbyn hyn.
Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y diwygiadau arfaethedig i'r Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid.	Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn 2017.
Ystyried pa rywogaethau ychwanegol y mae angen Codau Ymarfer Lles ar eu cyfer.	Y bwriad fydd gofyn y cwestiwn hwn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Gwenyn

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Gweithio gyda phartneriaid darparu i gefnogi Arolygwyr Gwenwyn tymhorol a llawn amser i reoli clefydau gwenyn yng Nghymru.</p>	<p>Mae Arolygwr Gwenyn Rhanbarthol Cymru yn cyhoeddi ei adolygiad o lechyd Gwenyn yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r adolygiad yn cynnwys amrywiaeth o ystadegau gan gynnwys nifer y bobl sy'n cadw gwenyn yng Nghymru a'r prif beryglon o ran clefyd. Gellir dod o hyd i adolygiadau Adolygwr Gwenyn Rhanbarthol Cymru Gyfan ar wefan Beebase - dolen: www.nationalbeeunit.com/index.cfm.</p> <p>Gweithiodd Llywodraeth Cymru a Gwenynwyr Cymru yn agos gyda chydweithwyr yn Defra ar ôl canfod presenoldeb Cacwn Meirch Asia yn Lloegr yn ystod yr hydref y llynedd. Mae'r cynllun wrth gefn a'r cynllun cyfathrebu yn cael eu diweddaru i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd.</p>
<p>Gweithio mewn partneriaeth â Defra, gweinyddiaethau datganoledig eraill a chymdeithasau cadw gwenyn i ystyried dyfodol y Rhaglen Wenyna.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Defra a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar Raglen Wenyna'r UE (2017-2019), sydd bellach wedi ei chytuno gan Gomisiwn yr UE.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Defra, gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r Fforwm Ymgynghori ar lechyd Gwenyn i ystyried dyfodol y Rhaglen Wenyna ar ôl 2019.</p>
<p>Cyfrannu at reoli a chost yr Uned Wenyn Genedlaethol.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu'r Arolygiaeth Gwenyn yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth Gwenyn yn cyflenwi'r Rhaglen lechyd Gwenyn yng Nghymru drwy arolygiadau am ddim, cyngor un i un ac addysg drwy weithdai hwsmonaeth. Mae'r Arolygiaeth yn bwydo gwybodaeth i mewn i Beebase (cronfa ddata) sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o fapio achosion o glefyd, yn casglu gwybodaeth am gadw gwenyn yng Nghymru ac yn gweithredu fel corff effeithiol i gyfathrebu â Gwenynwyr/ Ffermwyr Gwenyn ynghylch materion presennol. www.nationalbeeunit.com/index.cfm <http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm>.</p>

TB Buchol

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Gweithredu elfennau Cymru o Gynllun Dileu TB y DU yn effeithiol.</p>	<p>Mae Rhaglen Dileu TB, a amlinellir yng Nghynllun Dileu TB y DU 2016, wedi'i gweithredu fel y cytunwyd. Yn ogystal â rheolaethau presennol, roedd y canlynol ymhlith y mesurau gwell yn rhan o'r Cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymhwyso yn ddiofyn statws Rhydd o TB wedi'i Ddiddymu swyddogol ar gyfer pob anifail wedi'i heintio • cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi sydd wedi'u heffeithio gan TB buchol (www.ibTB.co.uk) • diwygio Gorchymyn TB (Cymru) 2010 er mwyn cyfochri ymhellach lefelau iawndal ag arfer gorau. <p>Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys cynigion i adolygu'r Rhaglen gyda bwriad o weithio tuag at Raglen newydd. Elfen allweddol o hyn fyddai gweithredu dull rhanbarthol newydd o ddileu TB.</p> <p>Mae Cynllun Dileu TB y DU 2017 wedi cael ei gymeradwyo gan y Comisiwn hefyd erbyn hyn.</p>
<p>Adolygu'r strategaeth TB Buchol a bwrw ymlaen â rhaglen wedi'i hadnewyddu ar ôl derbyn cytundeb y Gweinidogion.</p>	<p>Mae'r fframwaith strategol ar gyfer dileu TB, a gyhoeddwyd yn 2012, yn dod i ben eleni. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar 18 Hydref yn cyhoeddi strategaeth newydd gan lansio ymgynghoriad 12 wythnos gyda rhanddeiliaid ar nifer o fentrau newydd i gryfhau'r Rhaglen. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Ionawr 2017 ac, ar ôl ystyried yr ymatebion, rhagwelir y bydd y Rhaglen newydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2017.</p>
<p>Adolygu'r polisi brechu moch daear ar sail cyflenwad ac argaeledd brechiadau BCG ar gyfer moch daear.</p>	<p>Mae Adroddiad Brechu Moch Daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys - Blwyddyn 4 wedi'i gyhoeddi. Mae'n annhebygol y bydd y brechlyn BCG ar gyfer moch daear ar gael tan 2018. Mae swyddogion yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o gael gafael ar frechlyn dynol i lenwi'r bwlch ar gyfer 2017. Bydd penderfyniad i ddychwelyd ym mlwyddyn 6 i gwblhau'r rhaglen yn cael ei wneud yn dilyn cadarnhad pendant fod y brechlyn ar gael.</p>
<p>Cyflwyno dull rhanbarthol o ddileu TB yng Nghymru, gan gynnwys Ardal TB Isel cychwynnol a rheolaethau cysylltiedig.</p>	<p>Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ymateb rhanbarthol i ddileu TB yng Nghymru yn rhan o'r Rhaglen Dileu TB newydd. Yn rhan o'r rhaglen newydd, caiff Ardaloedd TB Isel, Canolig ac Uchel eu sefydlu ar draws Cymru yn seiliedig ar lefelau achosion o TB. Bydd gan bob ardal ddull wedi'i deilwra'n arbennig i adlewyrchu'r amrywiaeth a geir o ran cyflyrau'r clefyd a'i beryglon.</p>
<p>Targedu'r buchesau sydd yn dioddef o TB yn barhaus, gan weithredu mesurau dwys i gael gwared â'r clefyd yn y buchesi hyn.</p>	<p>Caiff achosion cronig o TB mewn buches eu categorioedd naill ai fel "achosion parhaus o TB mewn buchesi" sydd wedi bod yn destun cyfyngiadau am gyfnod hir o amser, neu "achosion ailadroddus o TB mewn buchesi", sef buchesi sy'n cael eu heintio eto yn fuan ar ôl cael gwared ar gyfyngiadau. Mae'r buchesi hyn yn destun proses reoli fwy trylwyr a all gynnwys ymchwiliadau strwythuredig i'r clefyd, cyfarfodydd achos mewnol ac allanol, ymweliadau a chyngor bioddiogelwch, llunio cynllun gweithredu ar gyfer yr unigolyn sy'n cadw'r gwartheg, cyfarfodydd adolygu achosion, gofynion profi ychwanegol, cysylltu â phartneriaid gorfodi priodol a chymau gweithredu penodol eraill. Ymgynghorir â Milfeddyg Swyddogol yr unigolyn sy'n cadw'r da byw i gael gwybodaeth leol ac i ddarganfod am faterion iechyd y fuches a allai fod yn arwyddocaol, ac fe'i gwahoddir i fod yn bresennol mewn cynhadledd achos ar y fferm.</p>

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Cyhoeddi'r adroddiad cadw gwylidwriaeth blynyddol a diweddariadau i'r Dangosfwrdd TB chwarterol.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol Gwylidwriaeth TB ar gyfer 2015 ym mis Gorffennaf 2016. http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/bovinetberadication/?skip=1&lang=cy</p> <p>Cyhoeddwyd yr adroddiad cymharu gwartheg ardaloedd triniaeth ddwys ar gyfer y pum mlynedd gyntaf, 1 Mai 2010 tan 30 Ebrill 2015. http://gov.wales/docs/drah/publications/160404-iaa-cattle-comparison-report.pdf</p> <p>Caiff Dangosfwrdd TB Cymru ei ddiweddarau bob chwarter. http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/bovinetberadication/tb-dashboard/?skip=1&lang=cy</p>
<p>Datblygu gwelliannau pellach i Raglen Filfeddygol Cymorth TB.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Partneriaid Cyflenwi i sicrhau bod milfeddygon sy'n gweithio yng Nghymru yn cyflawni'r hyfforddiant ac yn cael eu hachredu o dan raglen hyfforddi Cymorth TB. Mae ehangu cwmpas Cymorth TB i ddarparu cymorth (milfeddygol neu fel arall) i amrywiaeth o ffermwyr gwartheg ni waeth beth eu statws TB yn cael ei ystyried hefyd. Hyd yn hyn, mae tua 131 o filfeddygon wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi, a thua 260 wedi'u hachredu gyda Chymorth TB. Mae ymweliadau TB wedi cael eu cynnal, ac mae ffermwyr eraill wedi mynegi diddordeb mewn cael ymweliad o'r fath.</p> <p>Mae Farming Community Network wedi cyflwyno tendr llwyddiannus ar gyfer y contract o ddarparu cymorth, cyngor a mentora lles wedi'u teilwra yn arbennig i ffermwyr sy'n dioddef achos o TB yn eu buches. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda chydweithwyr Cyswllt Ffermio i ddarparu cyngor a mentora busnes wedi'u teilwra yn arbennig i ffermwyr sy'n dioddef achos o TB yn eu buches.</p>

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Cefnogi'r gwaith epidemioleg sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a fydd yn gweithredu fel sail ar gyfer polisiau rheoli clefydau yn y dyfodol.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith epidemioleg a wneir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Ychwanegwyd dwy ardal glwstwr arall (y Canolbarth a Dyfed) at y prosiect hwn. Cwblhawyd adroddiad sylfaenol ar gyfer yr ardaloedd ychwanegol hyn ym mis Tachwedd.</p> <p>Mae gwaith arall sy'n cael ei wneud yn rhan o'r prosiect yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi Dangosfwrdd TB Cymru bob chwarter; • gweithio i sefydlu Ardal Risg Isel Cymru; • mae Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi dadansoddi Symudiadau Gwartheg Cymru sy'n cynnwys data ar symudiadau gwartheg i Gymru a thrafodion lluosog. Mae'r data hyn yn cefnogi prosiect sy'n astudio buchesi sydd wedi bod yn rhydd o TB ers cryn amser. Y bwriad yw ceisio nodi beth y mae'r daliadau hyn yn ei wneud yn wahanol i'w cadw'n rhydd o TB; • gwylidwriaeth moch daear ar y fferm - ceir tri adroddiad a gwblhawyd ar gyfer cyfran 2014, ac mae chwe adroddiad arall yn cael eu llunio ar gyfer 2015 - yr amcan yw dangos i'r deiliadaethau dan sylw y gweithgarwch ar y fferm (neu beidio) sy'n canolbwyntio ymdrech yr ymyrraeth sydd ei hangen; • holiadur slyri - gwerthuso datganiadau yn rhan o ddiweddariad clwstwr EMC; 2 ychwanegiad newydd; statws Llyngyr yr Iau a Dolur Rhydd Feirysol Buchol; • Rhoi trefn ar genomau cyflawn; • Symudiadau gwartheg – dadansoddiad lefel uchel gan ddefnyddio set ddata 2013-2014; a • Adolygid prawf croen EMPB ac astudiaeth IR – cyflwynwyd canlyniadau rhagarweiniol i Lywodraeth Cymru.

Cynlluniau Wrth Gefn

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Cynnal yr adolygiad blynyddol o Gynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer Clefydau Anifeiliaid Egsotig, gan ystyried Cynllun Wrth Gefn Defra, y gwersi a ddysgwyd yn sgil ymarferion Lleol a Chenedlaethol ac achosion o glefydau go iawn erbyn mis Mawrth 2017.</p>	<p>Ailgyhoeddwyd Cynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer Clefydau Anifeiliaid Egsotig ym mis Gorffennaf 2016. http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/uk-contingency-planning/?skip=1&lang=cy</p>
<p>Cynorthwyo i ddatblygu ymarferion rheoli clefydau'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar lefel Prydain Fawr/ y DU ac ar lefel leol, a chymryd rhan yn yr ymarferion hynny.</p>	<p>Ym mis Tachwedd 2016, profodd Ymarferiad Athena ymateb y DU i gais gan Lywodraeth Awstralia i ddeddfu'r International Animal Health Emergency Reserve (IAHER) yn ffurfiol. Ym mis Rhagfyr, cymerodd Llywodraeth Cymru ran yn Ymarferiad Willow y DU er mwyn profi ei hymateb i glwy'r traed a'r genau.</p>
<p>Cymryd rhan mewn gweithgareddau cydnerthedd ehangach e.e. bod yn bresennol yng Ngrŵp Llywio Cydnerthedd Cymru ac ymarferion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.</p> <p>Presenoldeb hefyd yn Fforwm Cydnerthedd Cymru ac yn y Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl.</p>	<p>Mae cynrychiolwyr o Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru yn bresennol ym mhob cyfarfod cydnerthedd ac yn cymryd rhan mewn ymarferion iechyd nad ydynt yn gysylltiedig ag anifeiliaid pan fo'n bosibl, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'n cael eu cynrychioli ac er mwyn cynnal y cysylltiadau sy'n hanfodol i gefnogi'r gwaith o reoli achosion o glefyd anifeiliaid egsotig.</p> <p>Mae Ymgynghorwyr Milfeddygol Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru yn cymryd rhan fel aelodau o Grŵp Risg Milfeddygol y DU, y mae ei allbynnau yn cynnig rhybudd cynnar o risgiau milfeddygol er mwyn codi ymwybyddiaeth a hysbysu datblygiad polisi.</p>
<p>Adolygu asesiadau medrusrwydd i ymateb i glefydau ar y cyd â Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.</p>	<p>Mae'r Adolygiad ar gyfer 2016/17 yn mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2017. Bydd yr Adolygiad yn cael ei rannu â Gweinyddiaethau eraill er mwyn hysbysu Medrusrwydd y DU i Ymateb i Glefydau.</p>

Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Ystyried yr adolygiad annibynnol, gofyn am gyngor Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a grwpiau arbenigol eraill i roi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen.</p>	<p>Cyhoeddwyd yr adolygiad gwyddonol o 'Les Anifeiliaid Gwyllt mewn Sycasau Teithiol' ym mis Gorffennaf 2016. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Ddatganiad Ysgrifenedig ar 15 Rhagfyr 2016 yn amlinellu'r camau nesaf.</p> <p>www.gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/mobileanimal Exhibits/?skip=1&lang=cy</p>
<p>Gweithio mewn partneriaeth â CLILC, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ac Awdurdodau Lleol i lunio rhestr wirio a'i rhoi ar waith yn raddol er mwyn rhoi cyngor cyson i swyddogion gorfodi.</p>	<p>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig.</p>

Prosiect Unedau Cwarantin

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion, cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid darparu i weithredu Unedau Cwarantin yng Nghymru, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016.</p>	<p>Mae pob agwedd ar y prosiect hwn yn datblygu yn dda a disgwylir cyflwyno Unedau Cwarantin ddiwedd y gwanwyn 2017. Mae IBM yn gwneud newidiadau i'r System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS2) i gynnwys Unedau Cwarantin. Mae canllawiau ar gyfer pobl sy'n cadw da byw, cyrff ardystio a phartneriaid cyflenwi wedi'u datblygu ac mae prosiect peilot yn cynnwys dau gorff ardystio ac UKAS yn mynd rhagddo. Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Diwygio) 2017 wedi'i ddrafftio. Bydd y Gorchymyn yn caniatáu i Unedau Cwarantin ddisodli'r esemptiadau cymhleth presennol i'r 6DSS ar gyfer gwartheg, defaid a geifr, a bydd yn dod i rym pan gaiff yr Unedau Cwarantin eu cyflwyno.</p>
<p>Diwygio'r Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 a'r Trwyddedau Symud Cyffredinol i adlewyrchu'r trefniadau newydd.</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Diwygio) (Cymru) 2017. Mae Trwyddedau Symudiadau Cyffredinol wedi'u diwygio ac yn destun archwiliadau cyfreithiol.</p>
<p>Cyfathrebu â'r diwydiant ynghylch y trefniadau newydd.</p>	<p>Cytunwyd ar Gynllun Cyfathrebu a Strategaeth Ymgysylltu. Lluniwyd erthygl ar gyfer Ffair Aeaf Gwlad a cheir tudalen Unedau Cwarantin neilltuedig ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/farmanimaltracing/quarantine-units/?skip=1&lang=cy Yn ystod gwanwyn 2017, bydd y prif waith cyfathrebu yn gwahodd ffermwyr i gyflwyno ceisiadau am awdurdodiad i'w Hunedau Cwarantin cyn i'r system gael ei rhoi ar waith ddiwedd y gwanwyn.</p>

Perchnogaeth Gyfrifol

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Ystyried argymhellion Adolygiad RSPCA o Berchnogaeth Cŵn Cyfrifol yng Nghymru.	<p>Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad ar berchnogaeth gyfrifol o gŵn wedi cael eu hystyried. Gofynnwyd am safbwyntiau Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid hefyd.</p> <p>Trafodwyd yr Arolwg hefyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng nghyfarfod Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ym mis Rhagfyr. Mae dewisiadau ar y ffordd ymlaen yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig maes o law.</p>
Ymgysylltu ag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol i ddatblygu cynllun i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar anifeiliaid anwes, da byw ac anifeiliaid eraill mewn caethiwed ledled Cymru.	Bydd y gwaith o ddatblygu'r cynllun i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol yn cael ei gynnwys yn rhan o'r dewisiadau y cyfeirir atynt uchod. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig hefyd wedi cytuno i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'w wahodd i gymryd rhan mewn trafodaeth ar berchnogaeth gyfrifol a'r posibilrwydd i'r cysyniad hwn gael ei ymgorffori yn rhan o fywyd bob dydd yn yr ysgol.

Salmonela

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Ymateb effeithiol ac amserol i unrhyw achos o glefyd hysbysadwy neu dorri rheolau honedig yng nghyswllt y trefniadau profi a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli Cenedlaethol.</p>	<p>Ni fu unrhyw ddiwygiadau i reolau'r UE yn ystod y cyfnod adrodd hwn.</p> <p>Mae pedair Rhaglen Reoli Genedlaethol ar waith ar gyfer brwyliaid, bridwyr, ieir dodwy a thyrswyn. Mae'r Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol hyn yn nodi'r broses ar gyfer ymgymryd â gwyliadwriaeth statudol o salmonela yr ystyrir ei fod o arwyddocâd i iechyd y cyhoedd o dan Reoliadau yr UE.</p> <p>Mae'r adroddiad 'Salmonella in livestock production in Great Britain' a gyhoeddwyd ym mis Medi, yn darparu adroddiadau ar Salmonela mewn da byw, adar a bywyd gwyllt ym Mhrydain Fawr yn ystod 2015. www.gov.uk/government/publications/salmonella-in-livestock-production-in-great-britain-2015</p> <p>Mae penodau chwech a saith yr adroddiad hwn yn dangos bod y targedau pendant o ran nifer yr achosion o serofarau wedi'u rheoleiddio a amcangyfrifir ar gyfer pob Rhaglen Reoli Genedlaethol, wedi eu cyflawni a'n bod ni'n parhau i ragori ar dargedau'r UE ar gyfer lleihau yng nghyd-destun leir a Thyrswyn. Mae hyn yn dangos bod y Llywodraeth a'r diwydiant yn canolbwyntio eu hymdrechion ar reoli salmonela ar lefel fferm.</p> <p>Cafodd holl waith samplu salmonela y Rhaglen Reoli Genedlaethol y mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gyfrifol amdano, ei gwblhau yn 2015 gan gyrraedd y targed ac mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i gwblhau ei phroffil ar gyfer 2016.</p>
<p>Gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i fonitro ac adolygu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi, a chaiff gwasanaethau eu monitro a'u hadolygu bob mis. Mae swyddogion polisi ac ymgynghorwyr milfeddygol o'r pedair gweinyddiaeth, ynghyd â chynrychiolydd o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yn cynnal telegynhadledd bob mis i drafod cynnydd a materion presennol yn ymwneud â darparu'r Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol.</p> <p>Pan geir achosion neu ddigwyddiadau, cynhelir adolygiad o'r camau a gymerir a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny. Caiff prosesau eu mireinio yn ôl yr angen.</p> <p>Hefyd, cynhelir cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r diwydiant gyda rhanddeiliaid allweddol/y diwydiant.</p>

Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) – Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE)

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Drafftio ac ymgynghori ar reoliadau TSE cyfunol i Gymru, a fydd yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau 2008.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n drafftio Rheoliadau TSE cyfunol a fydd yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau 2008. Caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei ddatblygu â Defra a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y disgwylir iddo gael ei lansio yn y Gwanwyn.</p>
<p>Ymateb yn effeithiol ac yn amserol i unrhyw achos o glefyd hysbysadwy</p>	<p>Mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynd ati i wneud gwaith gwyliadwriaeth clefydau ar gyfer BSE mewn gwartheg, gan gynnwys profi stoc drig a'r anifeiliaid hynny y cânt eu hanfon i gael eu lladd ar unwaith. Yn 2016/17, ar 31 Rhagfyr 2016, nid oes unrhyw achos o BSE wedi'i ganfod mewn gwartheg drwy wneud gwaith gwyliadwriaeth weithredol yng Nghymru.</p> <p>Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion hefyd yn gwneud gwaith gwyliadwriaeth oddefol, pan roddir gwybod i Swyddfa Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion am anifeiliaid a chanddynt arwyddion clinigol sy'n amheus o unrhyw TSE, er mwyn eu hymchwilio. Caiff achosion o'r fath eu lladd a bydd archwiliad o'r ymennydd yn pennu pa un a effeithiwyd yr anifail gan BSE.</p> <p>Ar 31 Rhagfyr, nid oes unrhyw achos o BSE wedi'i gadarnhau yng Nghymru o ganlyniad i unrhyw fath o wylidwriaeth. www.gov.uk/government/statistics/cattle-tse-surveillance-statistics</p> <p>Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw rheolaethau gwahardd bwyd anifeiliaid, cynhelir archwiliad cenedlaethol o fwyd anifeiliaid sy'n arolygu ac yn samplu gwahanol gamau o'r gadwyn bwyd anifeiliaid. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed o gwblhau pob un o 225 ymweliad Archwilio Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol a broffiliwyd yng Nghymru yn 2016/17.</p>
<p>Parhau i weithio gyda phartneriaid cyflenwi i fonitro ac adolygu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid cyflenwi, a chaiff gwasanaethau eu monitro a'u hadolygu bob mis. Pan fo achosion neu ddigwyddiadau yn digwydd, caiff adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd ei gynnal o'r camau a gymerwyd ym mhob rhan o hanes yr achos, a chaiff prosesau eu mireinio pan fo angen.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cysylltu'n agos â gweinyddiaethau eraill i sicrhau bod barn pobl Cymru yn cael ei chynrychioli yn llawn yn ystod y gweithdrefnau pleidleisio a thrafodaethau ar TSE ar lefel y Comisiwn Ewropeaidd.</p>

Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy – Clefyd y Crafu

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Drafftio ac ymgynghori ar reoliadau TSE cyfunol i Gymru, fydd yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau 2008.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n drafftio Rheoliadau TSE cyfunol i Gymru a fydd yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau 2008. Caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei ddatblygu gyda Defra a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a gaiff ei lansio yn y Gwanwyn.</p> <p>Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i Atodiad VII Rheoliadau TSE yr UE yn ymwneud â rheolaethau clasurol o glefyd y crafu ar ffermydd. Bydd newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig yn ffurfioli mesurau a gyflwynwyd yn weinyddol, ar draws y DU ar 1 Gorffennaf 2013. Mae hyn yn darparu dull mwy cymesur o ran risg o reoli clefydau ac yn galluogi mabwysiadu'r dewis monitro a gwyliadwraeth (fel y safbwynt diofyn) yn hytrach na lladd a dinistrio'r preiddiau yr effeithiwyd arnynt.</p>
<p>Ymateb effeithiol ac amserol i unrhyw achos o glefyd hysbysadwy, a gweithredu a chadw at ofnyion y Cynllun Gorfodol ar gyfer Diadellau Clefyd y Crafu, lle bo angen.</p>	<p>Ar 31 Rhagfyr, yn 2016/17 nid oes unrhyw achosion o glefyd y crafu nodweddiadol wedi'u nodi ac mae un achos o glefyd y crafu annodweddiadol wedi'i nodi (nodwyd drwy ddulliau gwyliadwraeth gweithredol gan gynnwys Cynllun Gorfodol Diadellau Clefyd y Crafu, arolygon Stoc Drig a'r arolwg Clefyd y Crafu mewn Defaid a Geifr) mewn defaid yng Nghymru.</p> <p>Nid yw mesurau gwyliadwriaeth oddefgar wedi nodi clefyd y crafu nodweddiadol nac annodweddiadol mewn defaid yn 2016/17 hyd yn hyn. www.gov.uk/government/statistics/sheep-tse-surveillance-statistics</p> <p>Ar 31 Rhagfyr, nid oes unrhyw achos o glefyd y crafu wedi'i gadarnhau yng Nghymru yn 2016/17. www.gov.uk/government/statistics/goats-tse-surveillance-statistics</p>
<p>Gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i fonitro ac adolygu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi i fonitro ac adolygu gwasanaethau'n fisol. Pan fo achosion yn digwydd, cynhelir adolygiad o'r camau a gymerwyd a chaiff prosesau eu mireinio pan fo angen.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cyd-gysylltu'n agos â gweinyddiaethau eraill hefyd i sicrhau y cynrychiolir safbwyntiau Cymru yn llawn mewn trafodaethau TSE a gweithdrefnau pleidleisio ar lefel y Comisiwn Ewropeaidd.</p>

Adolygiad Labordy a Gwylidwriaeth

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Cyhoeddi fframwaith gwylidwriaeth newydd.	Mae strategaeth fframwaith gwylidwriaeth yn cael ei ddatblygu a'r bwriad yw ei gwblhau ym mis Mawrth 2017.
Ceisio manteision i Gymru yn sgil adolygiad yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o'i rhwydwaith o labordai.	Rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad.
Parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar ddatblygiad parhaus eu Canolfan Arbenigedd yng Nghaerfyrddin.	<p>Mae datblygiad y Ganolfan Arbenigedd yn parhau. Cynhaliwyd cynhadledd ym Mhrifysgol Bryste i ystyried datblygiad y Ganolfan yn y dyfodol.</p> <p>Yn dilyn adolygiad yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o'i gwasanaethau profi mewn labordai, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai holl brofion parasitoleg y rhwydwaith Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Ymchwilio Milfeddygol Caerfyrddin. Bydd hyn yn cynnwys y profion unigryw a ddarperir yn yr Amwythig ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni hyn, ynghyd â phrofion gamma a'r cynnydd arfaethedig i gapasiti, bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn recriwtio staff ychwanegol.</p>

Lles Anifeiliaid ar Adeg eu Lladd

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
<p>Adolygu'r adroddiad a luniwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen TCC i asesu'r angen am system ymarferol o TCC mewn lladd-dai, a'r posibilrwydd o system o'r fath.</p>	<p>Ystyriwyd fersiwn derfynol o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen TCC gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. www.gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/livestockwelfare/welfare-of-animals-at-time-of-killing/?lang=cy</p> <p>Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid am farn yr aelodau ar ganfyddiadau'r adroddiad i helpu i hysbysu'r ffordd ymlaen.</p>
<p>Trwy drafodaethau ag Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, gweithio i wella'r data a gyflwynir i Lywodraeth Cymru wrth adrodd. Bydd hynny'n gwella'r dystiolaeth a gesglir ynghylch achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion o ran lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo i ladd-dai.</p>	<p>Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Awdurdodau Lleol ac Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn mabwysiadu dull partneriaeth er mwyn gwella gweithdrefnau adrodd. Mae dulliau cyfathrebu gwell wedi'u cychwyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan alluogi mwy o dryloywder, i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fo hynny'n angenrheidiol.</p> <p>Ystyriodd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid y mater hwn hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2016 pan drafodwyd dull i wella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch gorfodi Deddfwriaeth Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo.</p>
<p>Cydweithio â Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru i ddatblygu a sefydlu ffordd wahanol o gyflawni gwaith gorfodi iechyd a lles anifeiliaid allweddol ar draws yr holl Awdurdodau Lleol drwy greu Cynllun Cyflawni Gorfodi</p>	<p>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cytuno ar strwythur partneriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Phenaethiaid Safonau Masnach er mwyn canolbwyntio cynlluniau polisi yn well â champau gorfodi mwy effeithiol ar faterion iechyd a lles anifeiliaid allweddol a allai gynnwys lles wrth gael eu cludo.</p>
<p>Cydweithio â Llywodraeth y DU i gyfrannu at ddatblygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn dilyn astudiaeth defnyddwyr y CE o'r modd y mae lles anifeiliaid yn dylanwadu ar benderfyniadau wrth brynu.</p>	<p>Ar yr adeg hon, nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi darparu rhagor o gynigion ar gyfer datblygu'r pwnc hwn.</p> <p>Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol a thîm Polisi Bwyd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd ar y mater hwn.</p>

Adran 3: Polisiau sy'n Dod i'r Amlwg

Camau Gweithredu Allweddol:	Diweddariad ar Gynnydd:
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion – Gwasanaethau'r Dyfodol.	Ceir cytundeb i ymestyn y trefniadau darparu presennol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd gwaith yn parhau i wella tryloywder y trefniadau ariannu, llywodraethu a'r sefyllfa gyffredinol o ran darparu gwasanaethau. Bydd cynnydd pellach yn destun adolygiad rheolaidd.
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion – Adolygiad o Daliadau am Wasanaethau a Ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.	<p>Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau a gynigir i ffioedd presennol ar gyfer rhai o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a chyflwyno ffioedd newydd ar gyfer rhai gwasanaethau.</p> <p>Nod y newidiadau a gynigir yw lleihau'r graddau y mae trethdalwyr yn rhoi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion trwy drosglwyddo rhai o'r costau i'r rheini sy'n elwa ar wasanaethau'r asiantaeth.</p> <p>Mae angen cytuno ar y ffioedd hyn ar draws pob un o 3 Gweinyddiaeth Prydain Fawr. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi maes o law a disgwylir i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn yr haf.</p>
Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE.	<p>Cyhoeddwyd y Rheoliad yn y Cyfnodolyn Swyddogol ym mis Ebrill 2016 ac mae ar gael yn www.eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=uriserv:OJ.L_.2016.084.01.0001.01.ENG&toc=OJ:L:2016:084:TOC</p> <p>Tra bod y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, mae'n parhau i fod yn ofynnol cynnal yr holl reolau a Rheoliadau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae trafodaethau'n parhau ar draws Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaethau'r DU i ystyried i ba raddau y caiff y rheolau newydd eu cymhwyso yng nghyd-destun y DU yn gadael yr UE a'r dulliau o gyflawni hyn.</p>

Adran 4: Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i Chi

Ymunwch â'n Rhwydweithiau Partneriaeth

Mae gwaith partneriaeth a mwy o gydweithredu â rhanddeiliaid yn elfen sylfaenol o weithrediad y Fframwaith. Os hoffech dderbyn y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf yn uniongyrchol am gyfleoedd i gymryd rhan, gallwch gofrestru eich diddordeb ar ein cronfa ddata ar gyfer rhanddeiliaid.

Llenwch y ffurflen gofrestru yn:
www.wales.gov.uk/ahwframework

Os hoffech gael copi caled o'r ffurflen gofrestru, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ewch i'n Gwefan

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gael yn: www.wales.gov.uk/ahwframework

Dilynwch Ni ar Twitter: [@CVOWales](https://twitter.com/CVOWales)

Cysylltwch â Ni

Anfonwch e-bost atom yn: WAHFG@Wales.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennwch atom yn:

Tîm Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Adeiladau Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

